

Iechyd a Diogelwch

Adroddiad Blynyddol



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

2019/2020

Hysbysiad: Mae data 'Damweiniau Anafiad' y Sector Addysg Uwch wedi'i ddiweddarau ar 17 Ebrill 2023 i gywiro anghysondeb.

CRYNODEB O'R PERFFORMIAD ALLWEDDOL

43%

Presenoldeb yn y sesiynau cynefino staff canolog

CYNEFINO (CANOLOG)
STAFF NEWYDD47% islaw'r
targed

DEFNYDDWYR CYFRIFIADUR



82.96%

Cwblhau Hyfforddiant
a Hunanasesiad2.04% islaw'r
targed

100%

Cyngor y Brifysgol

CYDYMFFURFIO Â
SAFONAU
ARWEINYDDIAETH A
RHEOLAETH UCEAGwelliant
Blynyddol a
ddangoswyd

90%

Pwyllgor Gweithredu'r Brifysgol

(Lefel
Weithredol
+7%)DAMWEINIAU A ARWEINIODD
AT ANAFIADAU
I STAFF

11.5

Damwain i bob 1000 o weithwyr

islaw y
Sector*ABSENOLDEB SALWCH
YMYSG STAFF

3.96

diwrnod ar goll i bob gweithiwr
Cyfwerth Amser Llawn1.54 dyddiau
yn is na'r
sector addysg
uwch (19/20)

Mynegai

Tudalen

Y Dangosyddion Perfformiad: Crynodeb

1.	Crynodeb Covid-19	2
2.	Y Polisiâu a'r Dogfennau Allweddol	3
3.	Archwiliadau, Adolygiadau a Dadansoddiad	4
4.	Y Camau Gorfodi ac Ymweliadau'r Arolygiaeth Statudol	7
5.	Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch	7
6.	Damweiniau a Digwyddiadau	9
7.	Absenoldeb Salwch Ymysg Staff	13
8.	Larymau Tân yn Canu	17
9.	Achosion Sifil i Hawlio lawndal (sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch)	18
10.	Ystadegau'r Wefan	18

1. CRYNODEB COVID-19

Ym mis Ionawr 2020 gwylodd y byd wrth i achosion Coronafeirws newydd gynyddu yn Tsieina. Wrth iddi ddod yn amlwg bod y sefyllfa'n gwaethygu, dechreuodd y brifysgol, fel llawer o sefydliadau eraill, baratoi ar gyfer sut y byddai'n amddiffyn ei staff a'i myfyrwyr rhag y firws.

Fel rhan o hyn, ym mis Ionawr ffurfiwyd y Grŵp Tactegol: yr haint Coronafeirws, a oedd yn cynnwys staff allweddol y brifysgol. Cafodd y Grŵp y dasg o fonitro'r sefyllfa gyfnewidiol i sicrhau bod y brifysgol yn ymateb yn briodol ar draws yr holl swyddogaethau. O'r cychwyn cyntaf, cyfarfu'r Grŵp o leiaf unwaith yr wythnos; gwnaed hyn tan ddiwedd mis Mawrth pan sefydlwyd gweithgorau eraill yn lle'r grŵp.

Teithio - Tramor a'r DU (gweler hefyd digwyddiadau Teithio Dramor)

Ym mis Ionawr dechreuodd y brifysgol gadw golwg ar achosion Covid-19 yn Tsieina a gwerthuswyd cronfa ddata deithio'r brifysgol i nodi pa staff a myfyrwyr oedd dramor a/neu'n bwriadu teithio dramor fel y gellid cymryd camau priodol, a darparu cefnogaeth. Dyddiadau a chymau gweithredu allweddol wrth i'r sefyllfa ddatblygu:

- 29 Ionawr: Dim teithio i Dalaith Hubei nac i weddill tir mawr Tsieina (heb gynnwys Hong Kong a Macao).
- 13 Chwefror: Dim teithio i China, Gwlad Thai, Japan, Gweriniaeth Korea, Hong Kong, Taiwan, Singapore, Malaysia na Macau.
- 14 Chwefror. Cynhyrchwyd y fersiwn cyntaf o'r "Asesiad Risg - Trefniadau rheoli mewn ymateb i'r Coronafeirws (Covid-19)".
- 28 Chwefror: Dim teithio i China, Gwlad Thai, Japan, De Korea, Hong Kong, Taiwan, Singapore, Malaysia, Macau, gogledd yr Eidal (i'r gogledd o Pisa, Florence a Rimini), Cambodia, Laos, Myanmar, a Fietnam.
- 6 Mawrth: Dim teithio dramor ar fusnes y brifysgol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. SYLWER: Roedd hyn cyn cyngor y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a

sefydliadau eraill ac roedd gobeithio wedi atal staff a myfyrwyr rhag mynd yn sownd dramor wrth i'r pandemig gydio, gan greu anawsterau teithio sylweddol.

- 12 Mawrth: Awdurdodwyd teithio yn y DU ar fusnes y brifysgol dim ond lle bo angen.

Rhoi'r gorau i weithgareddau: Dechrau'r Cyfnod Clo:

- Ar 15 Mawrth hysbyswyd myfyrwyr fod addysgu'n cael ei atal dros dro ac yn symud i ddarpariaeth ar-lein o 23 Mawrth ymlaen.
- Ar 16 Mawrth, dywedodd llywodraeth y DU fod cyfyngiadau bellach yn cael eu gweithredu a thrannoeth cafodd staff y brifysgol gyfarwyddyd i weithio gartref, heblaw ei fod yn hanfodol.
- Trwy'r Gwasanaeth Eiddo a Champws, dechreuodd y brifysgol y broses o gau adeiladau'r brifysgol a'u gwneud yn ddiogel.
- Ar 23 Mawrth cyhoeddwyd y 'cyfnod clo' ffurfiol gan y Prif Weinidog, ynghyd â chyfarwyddyd i bawb, ac eithrio gweithwyr hanfodol, weithio gartref. Cyfarfu Grŵp Cynllunio Covid-19 y brifysgol yn aml trwy gydol y cyfnod hwn a hyd at y cyfnod clo cenedlaethol.

Rhodddwyd trefniadau ar waith gan y Gwasanaeth Eiddo a Champws a Neuaddau i gefnogi myfyrwyr preswyl oedd yn aros yn y neuaddau a gwneud yr adeiladau'n ddiogel.

Roedd gwasanaethau cefnogi ac addysgu'r brifysgol ar gael ar-lein yn unig.

Gwnaed y newid i weithio gartref yn sydyn gyda'r brifysgol yn cael ychydig iawn o amser i baratoi. Roedd angen cefnogaeth ac arweiniad ar staff ar sut i greu swyddfa gartref a sefydlu offer cyfrifiadurol yn ddiogel. Roedd Gwasanaethau TG yn rhan annatod o ddarparu meddalwedd briodol i staff a chaledwedd lle bo hynny'n bosibl. Roedd hyn wrth gwrs, pan oedd staff yn ymdopi â phryderon eraill yn codi o'r cyfnod clo e.e. addysgu plant gartref, gofalu am bobl fregus, teimlo'n ynysig.

Nodir, er yr oedd llawer o staff yn gallu gweithio gartref, roedd yn rhaid i lawer barhau i weithio ar y safle. Roedd hyn yn cynnwys staff Gwasanaethau Masnachol yn cefnogi'r cannoedd o fyfyrwyr a oedd i bob pwrpas yn 'sownd' yn neuaddau'r brifysgol, staff technegol yn cyflawni swyddogaethau hollbwysig cysylltiedig â'r colegau ac ystod o staff o'r Gwasanaethau Eiddo a Champws a Gwasanaethau TG a oedd yn gweithio drwy'r cyfnod.

Enfys Ysbyty

Er mwyn cefnogi'r ymdrech genedlaethol, darparodd y brifysgol ei phrif adeilad chwaraeon, Canolfan Brailsford, a sefydlwyd 'ysbyty' Covid-19 Ysbyty Enfys Bangor ac mae'n parhau yno hyd heddiw.

Paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd

Ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben, llwyddodd y brifysgol i baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Gwnaed y gwaith paratoi mewn sawl cam ac roedd yn cynnwys staff dirifedi yn gweithio gyda'i gilydd gyda'r nod o alluogi'r brifysgol i ailgwrthod a darparu'r ddarpariaeth orau bosibl ar gyfer ymchwil a'r flwyddyn academaidd newydd.

O baratoi adeiladau, asesu risg, darparu hyfforddiant a chyfarwyddyd a datblygu protocolau, mae'r ymdrechion i gael y brifysgol yn 'barod' wedi bod yn glod i'r rhai oedd yn gysylltiedig ac i'r sefydliad.

Trwy gydol cyfnod yr Adroddiad Blynyddol hwn nodir:

- Mae bron i gilomedr o orchuddion plastig wedi'u prynu a'u codi i greu lleoedd diogel i astudio, gweithio ac addysgu.
- Mae dros 3,000 o gadeiriau a seddi wedi'u symud o'r campws i ryddhau lle ac i adlewyrchu llai o gapasiti.
- Mae dros 16,000 o bosteri, arwyddion, marcwyr llawr a strapiau cyfyngu seddau wedi'u prynu a'u gosod.
- Mae dros 5,400 litr o hylif diheintio dwylo wedi'i brynu, a'i ddefnyddio bron i gyd.
- Prynwyd dros 6,000 litr o ddiheintydd.
- Prynwyd a dosbarthwyd 8,000 o orchuddion wyneb golchadwy.

- Mae dros 900 o staff wedi gwneud hyfforddiant ar-lein i'w paratoi ar gyfer dychwelyd i'r gwaith ar y safle o dan y trefniadau a'r rheolaethau newydd.

Sylwer: Mae gwybodaeth am brofion Covid-19 i staff a myfyrwyr yn cael ei hystyried mewn adroddiadau ar wahân.

2. POLISIÂU A DOGFENNAU ALLWEDDOL

Crynodeb o ddogfennau iechyd a diogelwch sefydliadol 'allweddol' newydd, diwygiedig ac a ddiddymwyd, a gafodd eu cyflwyno, eu dileu neu eu haddasu yn ystod y flwyddyn.

• POLISIÂU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Ni chyflwynwyd unrhyw bolisiâu newydd yn 2019/20.

Adolygwyd a diweddarwyd y polisiâu canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Rheoli Dirgrynu yn y Gweithle.
- Diogelwch Bysiau Mini.
- Diogelwch rhag Tân
- Rheoli Diogelwch Dŵr.
- Rheoli Asbestos Iechyd a Diogelwch.
- Dim Ysmygu.
- Iechyd a Diogelwch Gwaith Maes.
- Teithio Dramor.

Yn ogystal, yn dilyn yr adolygiad tair blynedd o Ddatganiad Polisi Iechyd a Diogelwch cyffredinol y Brifysgol ym mis Ionawr 2019, cynhaliwyd yr adolygiad tair blynedd o'r ddogfen Atebolrwydd a Threfniadau Iechyd a Diogelwch ategol gyda newidiadau a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 4 Hydref 2019. Roedd y newidiadau yn cynnwys:

- Integreiddio gofynion polisi a statudol allweddol ar gyfer Hyfforddiant, Offer Diogelu Personol ac Ymchwilio i Ddamweiniau a Digwyddiadau. Mae hyn er mwyn galluogi diddymu Safonau Polisi Iechyd a Diogelwch ar wahân ar gyfer y meysydd hyn.
- Cynnwys dau bwynt ychwanegol ar gyfer yr 'Is-ganghellor a'r Pwyllgor Gweithredu'.

Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r angen i ystyried effeithiau penderfyniadau strategol ar iechyd a diogelwch a'r ail i gadarnhau'r defnydd o wybodaeth o archwiliadau ac adolygiadau i lywio gwneud penderfyniadau.

• Y POLISIÂU A DDIDDYMWYD

Ni ddiddymwyd unrhyw bolisiau yn 19/20.

• DOGFENNAU IECHYD A DIOGELWCH DIWYGIEDIG Y GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Parhaodd y gwaith yn 2019/20 i adolygu dogfennau iechyd a diogelwch y Gwasanaethau Proffesiynol yn unol â diweddariadau i ddogfennau iechyd a diogelwch y Coleg yn 2018/19. Roedd hyn yn cynnwys Gwasanaethau TG, Cyllid, Undeb y Myfyrwyr, Gwasanaethau Eiddo a Champws, Undeb Trading.

3. ARCHWILIADAU, ADOLYGIADAU A DADANSODDIAD

Crynodeb o'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau sefydliadol, y Coleg a Phroffesiynol ac agweddau rheoli risg.

• ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'n llawn "Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch" yr UCEA¹ ac USHA². Mae'r Grŵp Tasg Rheoli Argyfyngau Iechyd a Diogelwch yn gwneud ymarfer pen bwrdd er mwyn ystyried a chloriannu perfformiad yn unol â phob un o feini prawf perfformiad y ddogfen ar gyfer lefelau'r Cyngor a'r Pwyllgor Gweithredu.

Cydymffurfio* â Safonau Rheoli Cenedlaethol	
CYNGOR Y BRIFYSGOL	CYDYMFFURFIO 100% (17/17)
PWYLLGOR GWEITHREDU'R BRIFYSGOL	CYDYMFFURFIO 90% (28/31)

Adroddir ar y drydedd haen reoli, Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol, yn Adroddiad Blynyddol 2020/21.

**Mae cydymffurfio'n cyfeirio, ar y cam hwn, at allu tystio bod systemau ar waith i ddangos bod y 'camau gweithredu' a nodwyd yn cael eu cyflawni. Efallai y bydd gwelliannau sicrhau ansawdd pellach yn bosibl mewn rhai achosion.*

• AR LEFEL Y BRIFYSGOL: DANGOSYDDION RHEOLI RISG

Mae'r perfformiad cyffredinol ar gyfer y dangosyddion risg allweddol yn dangos gwelliant cyson. Aseswyd y peryglon a'r risgiau canlynol ledled y brifysgol yn ansoddol i nodi'r perygl a oedd yn weddill o ddod i gysylltiad â risg.

PERYGL / RISG / THEMA	Y Polisi/ Dog.	Dod i gysylltiad â Risg	Y Prif Nodiadau: Medi 2020
Asbestos	G/A	L/M	Mae angen diweddaru'r Polisi a'r Cynllun i adlewyrchu newidiadau sefydliadol
Cwmnïau Cysylltiedig	G	L	Adolygwyd yn 2019, ni nodwyd unrhyw risg iechyd a diogelwch Prifysgol sylweddol
Plant ar y Campws	G	L/M	Ystyriaeth bellach gan Ysgolion/Adrannau am blant mewn digwyddiadau (mae'r risg bresennol yn isel oherwydd rheoliadau Covid)
Rheoli Contractwyr	G/A	L/M	Mae angen gwella'r modd y rhoddir trefniadau cyfredol ar waith mewn rhai meysydd
COSHH - Cyfryngau Biolegol (HG2,3 a GM2)	G	L	Rheolaeth dda'n amlwg. Mae gweithgaredd yn y maes hwn yn parhau i gynyddu
COSHH - Cemegau mewn labordai	G	L/M	Angen hyfforddiant COSHH pellach
Cyfrifiaduron (cyfarpar sgrin arddangos)	G	L	Cydymffurfio'n gwella, fesul adroddiad dangosyddion perfformiad allweddol targed
Anabled - Iechyd a Diogelwch + Argyfwng	G	L	Trefniadau da ar waith i gefnogi

¹ Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau

² Cymdeithas Diogelwch ac Iechyd y Prifysgolion

Diogelwch Trydanol - Gwaith Gosod	G	L	Archwiliad a Phroffion bob 5 mlynedd
Diogelwch Trydanol - Offer Cludadwy	G	L/M	Lefelau cydymffurfio yn gwella ar draws y sefydliad (bydd Covid yn effeithio ar gydymffurfiaeth ail-brofi)
Gwaith Maes (Myfyrwyr a Staff)	G	L/M	Angen adolygu ymchwil cymdeithasol/pobl (wedi'i ohirio)
Diogelwch Tân (Risg i Fywyr)	G	L	Cynhaliwyd Asesiadau Risg yn ddiweddar
Diogelwch Nwy	G	L/M	Mae diffyg llwybr dogfennau y gellir ei archwilio mewn rhai meysydd
Laser ac Uwch Fioled (UV) - ymbelydredd anioneiddiol	G	L	Adolygwyd y Polisi Laser. Darparwyd hyfforddiant ychwanegol. Angen adolygiad UV mewn amser
Cyhyrsgerbydol (codi a chario)	G	M	Problemau hysbys gyda rhai Staff Llaw
Gweithio a theithio dramor (gan gynnwys Lleoliadau Myfyrwyr)	G	L	Mae dal angen cysylltu prynu teithiau gydag yswiriant/asesiadau risg
Rheoli Cerddwyr a Thraffig	A	L/M	Angen gofyniad i adolygu a gwella rhai safleoedd
Ymbelydredd - Radon	G	L	Rheolaethau ac Asesiadau Risg wedi'u sefydlu
Ymbelydredd - Ffynonellau Agored ac wedi'u Selio	G	L	System dda wedi'i sefydlu Arolygwyd yn allanol
Ymbelydredd - Pelydr X (risg i bobl)	G	L	Systemau da yn amlwg. Adolygwyd yn allanol
Llithro, Baglu a Chwmpo (allanol)	G/A	L/M	Wedi'i arolygu yn rhannol. Gwnaed gwaith adferol yn 19/20. Risg uchel o ddwyn achos sifil yn parhau
Gweithgarwch dan Arweiniad Undeb y Myfyrwyr	G	L	Lefel dda o reolaeth yn dal i fod yn amlwg. Archwiliwyd 2018
Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau	G	M	Mae diffygion o hyd o ran cadw cofnodion (dim system ganolog)
Diogelwch Dŵr (Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr)	G	L/M	Polisi'r Brifysgol bellach wedi'i ddiwygio. Mae angen diwygio

			gweithdrefnau'r Coleg/Adran. Mae angen gwella cofnodion Profion Dŵr
--	--	--	---

ALLWEDD

G: Gweithdrefnau da ar waith	L: Perygl isel o risg
G/A: Mae angen gwella agweddau ar weithdrefnau	L/M: Amlygiad yn isel ond mae angen gwaith
A: Gweithdrefnau ansawdd cyfartalog (mae angen gwelliannau mawr)	M: Perygl canolog o risg
P: Gweithdrefnau cyfyngedig / dim gweithdrefnau clir nac addas (mae angen gwelliannau brys)	H: Perygl uwch o risg

Nodyn 1: Mae'r uchod yn ddangosyddion a gymerwyd o'r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, sy'n werthusiad ansoddol parhaus o Feysydd Perygl a Risg c.40 Uchaf y Brifysgol.

• **CRYNODEB BLYNYDDOL COLEGAU/ GWASANAETHAU O BERFFORMIAD (HUNANGLORIANNU)**

Ni wnaed hyn yn 2019/20 oherwydd sefyllfa Covid-19.

• **TREFNIADAU IECHYD A DIOGELWCH CWMNIAU SY'N EIDDO LLWYR I'R BRIFYSGOL**

Y Ganolfan Rheolaeth

O ganlyniad i archwiliad 2018, roedd angen gweithredu i wella safonau hylendid bwyd. Trwy gydol 2019/20 bu'r Tîm Iechyd a Diogelwch yn monitro a rhoi cefnogaeth helaeth i'r Ganolfan Rheolaeth gan barhau i fonitro arferion hylendid bwyd i sicrhau bod safonau hylendid bwyd yn cael eu cynnal. Gweithredwyd camau pellach hefyd yn lleol yn 2020 o ganlyniad.

Yn ogystal, gwnaed gwaith i gefnogi'r Ganolfan Rheolaeth gyda'r gwaith o ailagor ei busnes arlwyo a gwesty ar ôl cyfnod clo Covid-19.

Undeb Trading

Er bod archwiliad o Undeb Trading ym mis Gorffennaf 2019 wedi dangos bod y trefniadau i reoli iechyd a diogelwch o safon dda, gyda sgôr gyffredinol o 84% am "Arferion Da". Dangosodd asesiad o'r trefniadau 'o ddydd i ddydd' i reoli tasgau sy'n

gysylltiedig â thasgau gweithredol craidd gyfradd lwyddo o **72%**.

Fel rhan o'r broses archwilio, rhoddwyd cefnogaeth i ymddrin â'r camau a nodwyd. Cynhaliwyd archwiliad dilynol ym mis Medi a mis Hydref 2019 a gadarnhaodd fod y camau gweithredu oedd yn codi o'r archwiliad wedi cael sylw.

Rhoddwyd cefnogaeth hefyd i gynghori ar ailagor yn ddiogel i fyfyrwyr mewn ymateb i bandemig Covid-19, a sicrhau bod gweithgareddau'n cefnogi'r ymdrechion Profi, Olrhain a Diogelu.

M-SParc

Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o waith papur M-SParc yn ystod 2019/20. Rhoddwyd cyngor a chefnogaeth hefyd ar drefniadau Covid-19 fel rhan o'r ailagor. Cynhaliwyd sawl ymweliad trwy gydol y flwyddyn i sicrhau, er enghraifft, bod Aseidiadau Risg a threfniadau iechyd a diogelwch addas wedi eu sefydlu ar gyfer project "Ar Daith" M-SParc, a aeth â gweithgareddau gweithdy ac adnoddau allan i'r gymuned mewn canolfannau cymunedol. Roedd y ganolfan gyntaf wedi'i lleoli ym Methesda.

• TREFNIADAU RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH COLEGAU/ADRANNAU (ARCHWILIADAU)

Mae archwiliadau rheoli iechyd a diogelwch yn defnyddio safonau a osodwyd gan yr USHA/UCEA (e.e. Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch mewn Canllawiau Sefydliadau Addysg Uwch) a safonau a osodir gan Bolisiâu Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ei hun. Yna ategir y rhain trwy werthuso canllawiau ar gyfer adrannau 'thema' yr archwiliad, er enghraifft, Teithio Dramor.

Gwnaed gwaith i symleiddio proses archwilio'r Coleg. Yn hanesyddol roedd archwiliadau Colegau wedi golygu llawer o waith a theimlwyd y gellid gwneud effeithlonrwydd pe bai'r archwiliad yn cael ei gynnal yn bennaf fel ymarfer bwrdd gwaith, wedi'i ategu gan gyfweiliadau. Cynhaliwyd archwiliad bwrdd gwaith arbrofol yng Ngholeg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg.

Dechreuwyd Archwiliad Rheoli Iechyd a Diogelwch Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes ym mis Ionawr 2020. Canolbwyntiodd yr archwiliad ar

Drefniadau Rheoli Iechyd a Diogelwch a thri maes â thema: Teithio Dramor, Teithiau yn y Deyrnas Unedig, Cynnal Digwyddiadau. Roedd y tîm Iechyd a Diogelwch wedi dechrau cyfweld â staff a choladu dogfennau i gefnogi'r cwestiwn a osodwyd pan ddechreuodd y 'cyfnod clo', a gohiriwyd yr archwiliad wrth i faterion pwysicach gael blaenoriaeth.

Gyda dechrau'r flwyddyn academaidd 20/21, cynhelir adolygiad i weld sut y gall y tîm Iechyd a Diogelwch barhau gydag Archwiliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch Colegau a Gwasanaethau yn wyneb 'gweithio gartref' ac ati.

DILYNWCH ARCHWILIADAU BLAENOROL

• ADOLYGIAD O BERYGLON BIOLEGOL

Cyfarfu Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol y Brifysgol ar 24 Chwefror 2020 lle nodwyd y byddai'r archwiliad blynyddol o gyfleusterau HG2 yn cael ei drefnu. Yn anffodus, ni chynhaliwyd yr arolygiad oherwydd Covid-19.

• ADOLYGIAD RADON

Yn 2019 gwnaed adolygiad o'r holl ganlyniadau radon blaenorol i nodi adeiladau a allai, o ganlyniad i'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio diwygiedig (IRR17) fod yn uwch na'r lefel radon gweithredu yn y gweithle (300 Bq m^{-3} [ar gyfartaledd dros flwyddyn]). O ganlyniad, ail-arolygwyd yr holl adeiladau perthnasol am gyfnod o 3 mis o ddiwedd Tachwedd 2019. Mae gwaith ymchwilio ac adfer pellach wedi'i wneud mewn un adeilad o ganlyniad i'r arolwg hwn.

Yn ogystal, ar gyngor Cynghorydd Diogelwch Ymbelydredd y Brifysgol, dechreuwyd gwneud adolygiad o lefelau radon yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol ym mis Chwefror 2020 a gofynnwyd am gadarnhad gan ddarparwyr trydydd parti ynglŷn â'i trefniadau rheoli radon. Yn anffodus, o ganlyniad i Covid-19 ni ellid casglu monitorau i'w dadansoddi ac fe'u gadawyd yn y fan a'r lle. Gyda sefyllfa Covid yn parhau, ni theimlir ei bod yn briodol ar hyn o bryd i wneud mesuriadau pellach ar hyn o bryd.

4. CAMAU GORFODI AC YMWELIADAU AROLYGU STATUDOL

Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2019/20. Ni ddechreuwyd unrhyw ymchwiliadau chwaith.

- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

Ni chafwyd unrhyw ymweliadau ffurfiol na gohebiaeth gorfodi/cwyno gyda'r HSE yn ystod y flwyddyn. Nid oedd Ffi am Ymyriadau na Hysbysiadau.

- Gwasanaeth Tân ac Achub

Cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru arolygiad ac ymgyfarwyddo ag Adeilad newydd y Celfyddydau a Phrif Adeilad y Celfyddydau yn Chwefror 2020.

Hwylusir yr ymweliadau hyn gan y Gwasanaeth Eiddo a Champws, gyda deiliaid adeiladau lleol yn cymryd rhan ac yn darparu gwybodaeth am weithgareddau a deiliadaeth, yn cynnwys manylon am ymarferion tân, profi larymau tân etc. Ni chodwyd unrhyw faterion o ganlyniad i'r ymweliad hwn.

- Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth Cymru

Archwiliodd arolygwr Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth Cymru cyfleusterau perthnasol ym mis Rhagfyr 2019 i gadarnhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy'n ymwneud â defnyddio a storio deunyddiau ymbelydrol, eu diogelwch, a chael gwared arnynt. Cadarnhaodd yr arolygiad bod trefniadau da ar waith.

Ymwelodd Cyfoeth Naturiol Cymru am yr ail waith ym mis Chwefror 2020, i asesu trefniadau mewn cyfleusterau lle mae gwaith 'ffynhonnell agored' yn cael ei wneud. Ni nodwyd unrhyw bryderon.

5. HYFFORDDIANT IECHYD A DIOGELWCH

Cymerodd bron i 200 aelod staff ran mewn cyrsiau a sesiynau iechyd a diogelwch a ddarperir yn ganolog. Crynhoir y rhain yn y tabl nesaf.

Mewn sawl achos, caiff cyrsiau a hwylusir yn ganolog eu hategu gan gyrsiau lleol ac allanol. Yn anffodus, **nid** yw'r rhain yn cael eu cofnodi ar y gronfa ddata hyfforddiant ganolog, ac felly nid oes dadansoddiad o berfformiad ar gael.

• CYRSIAU HYFFORDDIANT IECHYD A DIOGELWCH CYFFREDINOL


Yn ystod 2019/20 cafodd y cyrsiau canlynol eu darparu neu eu hwyluso gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch:

Blwyddyn	Nifer y cyrsiau/ Sesiynau	Y Staff/Myfyrwyr a fu'n cymryd rhan
2019/20	45	221
2018/19	45	291
2017/18	39	166
2016/17	67	299
2015/16	56	309 ³
2014	100	579
2013	85	583
2012	106	719

Roedd yr hyfforddiant a roddwyd i staff yn cynnwys:

- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf.
- Cyfarwyddyd Iechyd a Diogelwch ar Lefel Coleg.
- Sesiynau Cynefino Cyffredinol ar Iechyd a Diogelwch.
- Marsial Tân ac Ymchwiliad Tân .
- Gweithio ar uchder.
- Profi Offer Trydanol Symudol.

• CYNEFINO CYFFREDINOL I AELODAU STAFF



Mae Sesiynau Cynefino Cyffredinol Staff yn ddangosydd perfformiad allweddol o ran Iechyd a Diogelwch Sefydliadol.

Targed: Methwyd targed 2019/20 o 47%. **Gwnaeth 63** allan o **145** staff newydd (cymwys) dan gontract

³ Yn 2015/16 trosglwyddwyd Hyfforddiant Asesu Sgriniau Arddangos (DSE)/Defnyddwyr Cyfrifiaduron ar-lein ac nid yw bellach yn cael ei gynnig fel cwrs hyfforddi wyneb yn wyneb e.e.

roedd 137 o gyfranogwyr yn yr Hyfforddiant Defnyddwyr DSE yn 2014

gwblhau Cynefino Cyffredinol Staff y Brifysgol. *Bydd y targed ar gyfer 2020/2021 yn aros ar 90%.*


Ar hyn o bryd, gwahoddir mwyafrif yr aelodau newydd o'r staff i ddod i'r Diwrnod Cynefino canolog i'r staff, lle cânt wybodaeth iechyd a diogelwch sefydliadol. Mae'r gyfradd bresenoldeb yn y digwyddiad hwn o'i gymharu â chyfradd penodi Staff newydd (fel sy'n berthnasol) yn sail i'r dangosydd perfformiad allweddol (targed).

Oherwydd nad oedd rhai staff yn gallu mynd i'r sesiwn gynefino ganolog wyneb yn wyneb misol, treialwyd fersiwn ar-lein rhwng Awst a Thachwedd 2019 a'i lansio'n llawn ym mis Rhagfyr 2019 i geisio cael mwy o gydymffurfio.

90% oedd y targed ar gyfer 2019/20		
DANGOSYDD PERFFORMIAD	STATWS/GWERTH	NODIADAU
Canran y staff newydd (gwahoddedig) a aeth i sesiwn gynefino iechyd a diogelwch ganolog y brifysgol. ⁴	43% (47% islaw'r targed)	-37% ar berfformiad 18/19

Sylwer: Ni chaiff sesiynau cynefino iechyd a diogelwch mewnol (ar lefel ysgol/gwasanaethau/grŵp ymchwil) eu cofnodi'n ganolog ac felly ni chânt eu defnyddio ar hyn o bryd fel dangosydd perfformiad allweddol sefydliadol.

• HYFFORDDIANT I DDEFNYDDWYR CYFRIFIADURON




Mae hyfforddiant i ddefnyddwyr cyfrifiaduron (cyfarpar sgrin arddangos) yn ddangosydd perfformiad allweddol sefydliadol. Mae hyfforddiant o'r fath yn ofynnol dan y Rheoliadau cyfarpar sgrin arddangos.

Targed: Ni chyflawnwyd targed 2019/20 o 85%.

85% oedd y targed ar gyfer 2019/20		
DANGOSYDD PERFFORMIAD	STATWS/GWERTH	NODIADAU
Canran Defnyddwyr Cyfrifiaduron (cyfarpar sgriniau arddangos) sydd wedi	82.96% 2.04% yn is na tharged 2019/20	Cynnydd o 2.4% ar berfformiad 18/19 ---

cwblhau'r hyfforddiant ar-lein a'r hunanasesiad hyfforddiant ar-lein a'r hunan-asesiad		Mae targed 2020/21 yn parhau i fod yn 85%
--	--	---

Yn ystod 2019/20, bu i **226** aelod staff gwblhau'r hyfforddiant ar-lein i ddefnyddwyr cyfrifiaduron (gan ddod â'r cyfanswm i 82.96% o'r defnyddwyr cyfrifiaduron a amcangyfrifir sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant). Mae'r ffigur hwn yn gynydd o 2.4% o gyfanswm y llynedd o 81%, ond roedd yn is na'r gwerth targed o 85%. Mae sawl rheswm am hyn, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau gweithio Covid-19.



Mae'r tabl isod yn dangos y % o ddefnyddwyr cyfrifiaduron a gwblhaodd yr hunanasesiadau (cydymffurfio) ym mhob Coleg, Ysgol a Gwasanaeth Proffesiynol.

Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes	88%
Staff Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes	100%
Ysgol Busnes Bangor	90%
Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas	67%
Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth	91%
Y Gyfraith	94%
Cerddoriaeth, Drama a Pherfformio	89%
Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd	100%
Coleg Gwyddorau Dynol	75%
Staff Coleg Gwyddorau Dynol	93%
Addysg a Datblygiad Dynol	64%
Gwyddorau Iechyd	68%
Gwyddorau Meddygol	68%
Seicoleg	82%

⁴ Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys rhai grwpiau o staff llaw


Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer	95%
Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianeg	76%
Staff Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianeg	94%
BioGyfansoddion	80%
Cyfrifiadureg a Pheirianeg Electronig	50%
Gwyddorau Naturiol	84%
Gwyddorau Eigion	68%
Gwasanaethau Proffesiynol	90%
Canolfan Bedwyr	82%
Gwasanaethau Masnachol	93%
Gwasanaethau Corfforaethol	90%
Gwasanaethau Cyllid ac Ymchwil	80%
Gwasanaethau TG	100%
Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau	92%
Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu	92%
Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin	96%
Celfyddydau Pontio	90%
Gwasanaethau Eiddo a Champws	78%
Gwasanaethau Myfyrwyr	99%
Undeb y Myfyrwyr	86%

CYMHWYSEDD

Mae 'safonau hyfforddiant cymhwysedd' a argymhellir wedi'u sefydlu ar gyfer pob haen o uwch reolwyr ac ar gyfer eu prif gydlynwyr, swyddogion a chynghorwyr iechyd a diogelwch. Mae'r canlynol yn dangos lefel perfformiad 2019/20 ar gyfer pob un, sy'n aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol gan y bu'n rhaid canslo dyddiadau hyfforddi oherwydd cyfnod clo Covid-19.


SWYDDOGAETH	AELOD / DEON / CYFARWYDDWR	CYDLNYDD/ SWYDDOG IECHYD A DIOGELWCH
PWYLLGOR GWEITHREDU (nad ydynt hefyd yn Gyfarwyddwr/ Pennaeth Coleg)	33%	
COLEGAU	33%	100%
GWASANAETHAU PROFFESIYNOL	45.43%	91%

6. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU



Yn ystod 2019/20 cafwyd 141 o adroddiadau ar ddigwyddiadau, ychydig yn is na 2018/19 (230). Roedd **40** o'r adroddiadau hyn yn ymwneud ag 'anaf' i rywun (heb fod yn chwaraeon), roedd **76** yn ymwneud â digwyddiadau na achosodd anafiadau (a fu bron â digwydd, sefyllfa beryglus neu arferion annigel) ac roedd y **25** arall yn adroddiadau am ddigwyddiadau meddygol (megis llewygu, salwch a chonfylsiynau).


Digwyddodd yr 40 anaf ar y safle a/neu yn ystod gweithgareddau dan arweiniad y brifysgol, i fyfyrwyr, staff, contractwyr ac ymwelwyr.



Priodolir y cynnydd mewn digwyddiadau meddygol i un unigolyn a brofodd gyfnodau rheolaidd o'i gyflwr. Derbyniodd yr unigolyn gefnogaeth briodol gan bob rhan o'r sefydliad i'w alluogi i barhau â'i astudiaethau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill y brifysgol.

ANAFIADAU-DAMWEINIAU I STAFF A MYFYRWYR

Mae'r cyfraddau damweiniau a digwyddiadau wedi gostwng yn sylweddol oherwydd bod llawer o weithgareddau ar y safle wedi dod i ben oherwydd y cyfnod clo ym mis Mawrth.



Yn 2019/20, nifer damweiniau i staff a myfyrwyr a achosodd anaf o ganlyniad i'w gwaith neu eu hastudiaethau yn y brifysgol ac a adroddwyd amdanynt oedd **29** (56 yn 2018/19). O'r cyfanswm hwn, roedd 23 (43 yn 18/19) yn ddamweiniau'n ymwneud â staff a 6 (13 yn 18/19) yn ymwneud â myfyrwyr.

Yn ychwanegol at adroddiadau anafiadau-damweiniau i staff/myfyrwyr, cafwyd **11** yn rhagor (26 yn 18/19) o adroddiadau am ddamweiniau a achosodd anafiadau i ymwelwyr a chontractwyr. Mân anafiadau oedd y rhain i gyd.

• ANAFIADAU MAWR


Roedd un "anaf mawr" (fel y'i diffiniwyd) yn ystod y flwyddyn a achoswyd gan aelod Staff yn baglu dros fag ar y llawr yn ystod darlith a thorri braich o ganlyniad.

• CYFRADD DAMWEINIAU A ACHOSODD ANAFIADAU (fesul 1000 mewn Risg)

Staff

Y gymhareb anafiadau-damweiniau staff ar gyfer 2019/20 oedd **11.5** o ddamweiniau fesul 1,000 o weithwyr⁵, gostyngiad sylweddol o'r **21/1000** a adroddwyd yn 2018/19 a briodolir i'r ffaith bod y rhan fwyaf o weithgareddau'r brifysgol wedi dod i ben i bob pwrpas ddiwedd mis Mawrth 2020 pan ddaeth y cyfnod clo a gweithio gartref oedd y norm. Y Gyfradd Genedlaethol yn 19/20 oedd **14.62/1000**.

Damweiniau a achosodd anafiadau yn y Sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 o STAFF (2010 – 2019/20)




12	13	14	15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20
27.4	16.4	15.2	21.3	22.4	16.5	22	21	11.5

Myfyrwyr

Yn 2019/20, bu **6** (13 yn 19/20) o ddamweiniau a achosodd anafiadau i fyfyrwyr o ganlyniad uniongyrchol i'w hastudiaethau yn y brifysgol. Yn dangos cymhareb o **0.6** damwain fesul pob 1,000 o fyfyrwyr⁶ sef gostyngiad ar y 1.3 a fu yn 18/19. Y Gyfradd Genedlaethol yn 18/19 oedd 2.9/1000.

Damweiniau a achosodd anafiadau yn y Sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 o FYFYRWYR (2010 – 2019/20)



11	12	13	14	15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20
1.9	1	2	1	1.7	2.4	2.4	1.5	1.3	0.6

⁵ Ar sail cyfrif o 2005 o aelodau staff yn ystod y flwyddyn

⁶ Wedi ei seilio ar 10,247 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn

DAMWEINIAU ANGEN ADRODD ARNYNT (RIDDOR)

Yn ystod 2019/20 1 damwein yr oedd rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Roedd y RIDDOR hwn yn ymwneud ag aelod dros dro o **Staff**, o ganlyniad i syrthio yn y gwaith.

Cyfradd digwyddiadau RIDDOR i staff AU yn 2018/19 oedd **1.21/1000** (CALL wedi'i addasu). Cyfradd Prifysgol Bangor yn 2019/20 oedd **0.5/1000**; roedd yn 2.4/1000 yn 18/19.

Cyfradd digwyddiadau RIDDOR i fyfyrwyr yn genedlaethol oedd **0.055/1000** yn 2018/19. Cyfradd ddiweddaraf y brifysgol yn 2019/20 oedd **0 / 1000** (0.1 yn 18/19).


Yn hanesyddol mae cyfraddau RIDDOR y brifysgol yn amrywio'n fawr fel y gwelir isod:

Blwyddyn	Staff	Myfyrwyr	Ymwelydd	Cyfanswm
2019/20	1	0	0	1
2018/19	5	1	1	7
2017/18	0	3	0	3
2016/17	1	1	0	2
2015/16	4	1	0	5
2014	7	1	0	8
2013	3	1	1	5
2012	0	2	0	2
2011	3	0	0	3
2010	3	3	1	7
2009	10	0	2	12
2008	5	1	1	7

Ni chafwyd **unrhyw** Afiechydon Galwedigaethol na Digwyddiadau Peryglus Adroddadwy yn 2019/20.

ACHOSION DAMWEINIAU (pob damwain)


Roedd mwyafrif y **40** damwain a arweiniodd at anaf yn ymwneud â naill ai digwyddiad codi a chario (8 = 20%), rhywun yn cael ei daro gan rywbeth a oedd yn symud/syrthio (7 = 17%); rhywun yn taro rywbeth sefydlog (4 = 10%) neu lithro, baglu neu syrthio (18 = 45%); 3 arall.



■ Trin ■ Lithro, baglu, syrthio
 ■ Taro gan rywbeth symudol ■ Taro rhywbeth sefydlog
 ■ Arall

DAMWEINIAU/DIGWYDDIADAU A ACHOSODD I STAFF GOLLI AMSER O'R GWAITH

Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau a achosodd i staff golli amser o'r gwaith yn 2019/20.



Damweiniau a achosodd golli amser o'r gwaith (staff)

DIGWYDDIADAU'N YMWNEUD Â CHWARAEON

Derbyniwyd **103** o adroddiadau am ddigwyddiadau'n ymwneud â chwaraeon (gweithgareddau anacademaidd), yn bennaf am anafiadau sy'n digwydd yn anochel wrth chwarae rhai chwaraeon.

DIGWYDDIADAU DRAMOR A THEITHIO DRAMOR


Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ymwneud yn bennaf â theithio dramor ar gyfer teithiau oedd yn dechrau ar 1 Awst 2019 tan 6 Mawrth 2020, pryd y cafodd staff a myfyrwyr eu hatal rhag mynd ar deithiau tramor a gofynnwyd iddynt ddychwelyd i'w mamwlad/canolfan lle bo hynny'n bosibl.

O 6 Mawrth, roedd 126 o staff a myfyrwyr yn dal i fod dramor. Gwnaeth mwyafrif y staff a'r myfyrwyr eu ffordd eu hunain 'adref' heb fod angen cymorth yswiriant.

Y nifer a ofynnodd am gefnogaeth i ddychwelyd oedd 10.

Nifer y myfyrwyr a ddewisodd aros dramor oedd 22, lle'r oeddent mewn lleoliadau nad oedd y firws wedi effeithio gymaint arnynt, ar y pryd, yn bennaf yn y dwyrain pell ac Awstralia neu Seland Newydd.


Gostyngodd teithio dramor 44% yn 2019/20, yn bennaf oherwydd rheoliadau Covid-19.



Gwnaed 33 o hawliadau 'yswiriant' am deithiau yn 2019/20:

- 9 Treuliau Meddygol: 1 anaf ac 8 o ganlyniad i salwch nad oedd yn gysylltiedig â Covid.
- 9 achos o ganslo taith (6 yn gysylltiedig â Covid).
- 8 achos o gwtogi leoliad (yn gysylltiedig â Covid).
- 4 achos o gostau aildrefnu (yn gysylltiedig â Covid).
- 3 achos o golled/difrod i eitemau personol.

Sylwer: Er ei fod y tu allan i flwyddyn academiaidd 19/20, hyd at 13 Hydref 2020, mae 28 myfyriwr ac 1 aelod staff wedi gofyn am yswiriant teithio dramor (yswiriant). Mae hyn ers dychwelyd i ymchwil a gofynion i fyfyrwyr fod dramor fel elfen orfodol o'u cwrs a chyda'r prosesau sgrinio Covid-19 cysylltiedig yn cael eu gweithredu.



• DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â CHERBYDAU

Yn 2019/20, roedd 2 hawliad am ddamweiniau'n ymwneud â cherbydau; roedd un am fân ddifrod i flaen fan VW Transporter a arweiniodd at gost o £620 a'r llall am ddifrod ychydig yn fwy sylweddol i ochr MPV mawr, gyda chost o £2,470.

Ni adroddwyd am unrhyw anafiadau'n ymwneud â cherbydau.

Mae'r tabl canlynol yn nodi cyfraddau digwyddiadau i gerbydau llogi yn unig. Nid oes unrhyw ddata milltiroedd ar gyfer cerbydau sy'n eiddo i'r brifysgol a/neu gerbydau personol lle mae staff yn defnyddio eu cerbydau eu hunain ar fusnes y brifysgol.

2016/17		2017/18		2019/20	
Cyf. Dydd	Cyf. Milltir	Cyf. Dydd	Cyf. Milltir	Cyf. Dydd	Cyf. Milltir
1,686	175,701	1,810	255,090	466	61,034
Dig. / Dydd	Dig. / Milltir	Dig. / Dydd	Dig. / Milltir	Dig. / Dydd	Dig. / Milltir
3.6/1000 dydd	3.4/100k milltir	4.4/1000 dydd	3.18/100k milltir	4.3/1000 dydd	3.3/100k milltir
CYFANSWM ANAFIADAU		CYFANSWM ANAFIADAU		CYFANSWM ANAFIADAU	
0		0		0	

Sylwer: Nid oedd data 2018/19 ar gael

⁷ O ddefnyddio cyfanswm y digwyddiadau fesul y diwrnodau llogi a'r milltiroedd ar gyfer un darparwr (llogi) cerbydau, yn unig, 2 o ddigwyddiadau yswiriant o'r fath oedd


Cerbydau Undeb y Myfyrwyr

Mae Undeb y Myfyrwyr yn endid cyfreithiol ar wahân. Mae ganddo yswirwyr gwahanol ac felly mae'n cadw ei ddata ei hun ar wahân. Mae Undeb y Myfyrwyr yn 'berchen' ar 7 o gerbydau: 4 bws mini, 2 MPV ac un fan.

Yn 2019/20 (daeth teithio i ben ym mis Mawrth 2020 oherwydd y cyfnod clo) ni adroddwyd am unrhyw anafiadau mewn damweiniau ffyrdd. Cafwyd 3 hawliad yswiriant; bws mini yn achosi difrod i gar gwag llonydd, bws mini yn crafu yn erbyn wal wrth adael maes parcio'r brifysgol a difrod i do a achoswyd gan rwystr uchder maes parcio.


Cyfanswm y pellter a deithiodd cerbydau Undeb y Myfyrwyr yn 2019/20 oedd **35,074** o filltiroedd, gostyngiad o 36% ar 2018/19 (55,145).

• **MONITRO SAFLEOEDD (ADEILADU A CHYNNAL A CHADW)**



Gostyngodd nifer yr arolygiadau iechyd a diogelwch mewnol ar waith adeiladu/cynnal a chadw i **74** yn 2019/20, o'i gymharu â **189** y flwyddyn flaenorol.

Dangosodd canfyddiadau'r arolygiadau hynny gynydd bach yn y rhybuddion a roddwyd, ond o ganlyniad i Covid-19 gwelwyd gostyngiad o 60% mewn arolygiadau oherwydd y cyfyngiadau ar staff a gwaith ar y safle.




O'r 74 o arolygiadau, roedd 20% ar arferion gweithio contractwyr, 18% ar staff cynnal a chadw'r brifysgol, 61% ar staff tiroedd ac roedd y 1% arall yn cyfeirio at weithrediad cyfleusterau. Roedd 8 o fân faterion (11%) gyda 7 yn ymwneud â Chontractwyr ac 1 Cyfleuster.

Nodir bod nifer yr archwiliadau safle wedi gostwng yn sylweddol oherwydd y cyfnod clo a chwtogi ar weithgaredd.

7. ABSENOLDEB SALWCH YMYSG STAFF



Mae'r brif gyfradd absenoldeb salwch yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y sector cenedlaethol. Sylwer, mae pandemig Covid-19 yn effeithio ar ddata 2019/20.




Yn 2019/20, collwyd 6,293 o ddyddiau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch y rhoddwyd gwybod amdano. Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd absenoldeb salwch ymysg y staff o oddeutu **3.96** diwrnod am bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn⁸ (5.47 diwrnod yn 2018/19).

Cyfartaledd y Sector Cenedlaethol yn 2019/20 oedd 5.5 diwrnod. Adroddodd y CIPD mai lefel absenoldeb gweithwyr ar gyfartaledd (Ebrill 2020) oedd 5.8 diwrnod y gweithiwr y flwyddyn, neu golli 2.6% o amser gwaith; sef yr isaf a gofnodwyd erioed gan yr Arolwg CIPD. Cofnododd cymharydd lleol, Cyngor

⁸ Seiliedig ar 1588.38 CALI ar gyfartaledd yn 2019/20

Gwynedd, 9.45 o ddyddiau yn 2018/19 (Ebrill-Mawrth).

Mae Cyfradd Absenoldeb Salwch Prifysgol Bangor yn 2019/20, sef **3.96 diwrnod** yn cyfateb i gollu **1.82%** o amser gwaith⁹ oherwydd absenoldeb salwch. Y gyfradd yn 2018/19 oedd **2.51%**.



Yn 2019/20 cadarnhawyd 75.42% (4,747 o ddyddiau gwaith, addaswyd ar gyfer CALL) o holl absenoldebau salwch gan dystysgrif meddyg, ac roedd y gweddill sef 24.58% (1,546 o ddyddiau, addaswyd ar gyfer CALL) yn rhai hunan-ardystio.

Roedd absenoldebau tymor hir, mwy nag 20 diwrnod, yn gyfrifol am **56.7%** (3,569 o ddiwrnodau o absenoldeb, addaswyd ar gyfer CALL) o'r holl ddiwrnodau o absenoldeb a adroddwyd yn 2018/19, ac yn dangos gostyngiad o 11.4% ar 2018/19.

Nodir, gan fod ¾ o hanner olaf y flwyddyn yn ystod cyfnod clo Covid-19, fod nifer o staff naill ai ar y cynllun ffyrlo neu'n gwarchod ac felly ni chofnodwyd unrhyw absenoldeb i'r aelodau staff hyn fel salwch.

Canran absenoldeb oherwydd salwch hirdymor					
	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20
Bangor	61.9%	65.6%	63%	64%	56.7%
Sector	52.4%	53.3%	52.2%	54.6%	56.0%

• **ABSENOLDEB SALWCH COVID-19**

Collwyd 371 diwrnod oherwydd absenoldeb salwch Covid-19 (hyd at 31 Gorffennaf) yn effeithio ar 22

aelod staff, gyda chadarnhad bod 4 ohonynt wedi cael canlyniad positif am Covid-19.

Roedd un aelod staff yn yr ysbyty oherwydd Covid-19 ac ers hynny mae wedi dychwelyd i'w ddyletswyddau fel Swyddog Diogelwch.

• **% STAFF A RODDODD WYBOD AM ABSENOLDEB SALWCH**

Bu gostyngiad yn nifer y staff a roddodd wybod am absenoldeb salwch yn 2019/20.

Rhododd **526 aelod staff** wybod am absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn, mae hyn yn cyfateb i oddeutu **26.23%** o staff. Yn 2018/19 y gyfradd oedd **28.91%** a **29.97%** yn 2017/18.

Mae 22 aelod staff nad oeddent yn gallu gweithio oherwydd symptomau Covid-19 wedi eu cynnwys yn y data.

• **TABL ABSENOLDEB SALWCH MEINCNOD (UCEA)**

Mae'r adran hon, a gymerwyd o adroddiad meincnod UCEA **2018/19**, yn darparu gwybodaeth ar sut mae Prifysgol Bangor yn cymharu â'r sector cyfan ac ag is-set prifysgolion sy'n rhannu'r un **nodweddion** (Cyn-92) a **maint** (bach). Mae UCEA yn diffinio sefydliad fel un "bach" os oes ganddo lai na 2000 o weithwyr. Mae 12 sefydliad yn yr un 'is-set' â Phrifysgol Bangor.

Sylwer fod yr Adroddiad UCEA **flwyddyn ar ôl** ac felly mae data Prifysgol Bangor ar gyfer **2018/19**.

ADRODDIAD UCEA 2018/19		Holl sefydliadau AU (99)		Sefydliadau AU bach Cyn-92 (12)	
Mesur (CALL)	Bangor (PB)	Meincnod	Safle PB	Meincnod	Safle PB
Cyfartaledd dyddiau gwaith a gollwyd (dyddiau)	5.5	6.2	26	6.2	5
% dyddiau gwaith a gollwyd	2.5%	2.9%	27	2.8%	5

⁹ Yn seiliedig ar flwyddyn waith o 260.715 diwrnod gwaith ar gyfartaledd

Dyddiau gwaith tymor byr a chanolig a gollwyd (dyddiau)	2.0	2.8	6	2.8	2
% absenoldeb salwch hir dymor	64.0%	54.6%	82	54.2%	12

Mae'r canlynol yn grynodedb achos absenoldeb salwch ar gyfer **2018/19**, fel y darparwyd gan adroddiad meincnod UCEA.

Pob Absenoldeb Salwch (tymor byr, canolig a hir)			
Categori Absenoldeb	BU	Pawb (99)	Sefydliad AU bach Cyn-92
RESP – Asthma a phroblemau eraill ar y frest/anadolol gan gynnwys niwmonia, bronchitis, pliwrisi	4.0%	3.5%	5.1%
CNCR – Canserau a thiwmorau (Tiwmorau anfalaen a malaen, canserau)	4.6%	4.2%	4.3%
COLD – Annwyd, peswch, fflw	7.7%	11.1%	8.5%
DEGP – Diabetes a phroblemau endocrin/chwarennol eraill (e.e. diabetes, thyroid, metabolig)	1.5%	0.3%	0.8%
ENTD – Problemau llygaid, clust, trwyn, gwddf a deintyddol	4.8%	3.5%	3.4%
GNIT – Anhwyldeuau cenhedlol-droethol a gynaeolegol, ac eithrio beichiogrwydd	4.6%	1.9%	2.3%
MIGR – Cur pen, meigrin a'r system niwrolegol/nerfol	1.9%	3.7%	2.7%
HEBL – Anhwyldeuau'r galon, cylchrediad y gwaed a gwaed	6.1%	2.5%	3.0%
OPER – Llawdriniaeth / adferiad / apwyntiad meddygol *	0.0%	6.4%	6.8%
INBP – Anaf, llosgiadau a gwenwyno	0.0%	3.7%	2.4%
MNTL – Iechyd meddwl gan gynnwys blinder, gwendid nerfol, camddefnyddio alcohol/cyffuriau	28.0%	25.6%	24.4%
MUSC – Cyhyrsgerbydol, yn cynnwys problemau cefn/gwddf, twnnel y carpal, tendonitis	21.9%	11.4%	14.4%
INFC – Clefydau heintus eraill (e.e. eryr)	0.9%	1.6%	1.7%
PREG – Anhwyldeuau cysylltiedig â beichiogrwydd	0.8%	1.1%	1.1%

SKIN – Anhwyldeuau croen	1.5%	0.4%	0.5%
STMC – Problemau stumog / treulio / gastroberfeddol (e.e. poen yn yr abdomen, gastroenteritis, chwydu, dolur rhydd)	10.0%	8.0%	7.7%
OTHR – Achosion hysbys eraill nad ydynt yn dod dan y categorïau UCEA	1.7%	4.5%	3.0%
UNKN – Achosion anhysbys/heb eu nodi	0.0%	6.6%	8.0%

* Nid yw Prifysgol Bangor yn defnyddio'r categori hwn. Defnyddir y categori salwch/cyflwr ei hun ac nid adferiad ar ôl llawdriniaeth.

• CYFNODAU O ABSENLDEB TYMOR HIR

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm cyfnodau absenoldeb yr holl achosion o salwch tymor hir a ddaeth i ben yn 2018/19, o'i gymharu â 2017/18, 2016/17 a 2015/16.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol gellir gweld bod y mwyafrif o absenoldebau (tymor hir), 63%, wedi dod i ben o fewn cyfnod o 2 fis.



Absenoldebau hirach nag 20 diwrnod a ddaeth i ben yn 2019/20 (cymharydd 2018/19, 2017/18 a 2016/17)				
Cyfnod absenoldeb mewn misoedd	Nifer achosion 2016/17	Nifer achosion 2017/18	Nifer achosion 2018/19	Nifer achosion 2019/20
≤2	47	43	67	55
≤3	16	18	8	21
≤4	7	7	6	5
≤5	7	7	7	2
≤6	6	3	9	3
≤7	1	5	2	1
≤8	2	0	2	0
≤9	1	0	0	0
≤10	1	0	0	0
≤11	1	1	0	0
≤12	0	0	0	0

• ACHOSION ABSENLDEB SALWCH


Sylwer: Mae grwpiau achosion yn cyfeirio at absenoldebau a ardystiwyd gan feddyg yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys achosion am absenoldeb hunan-ardystiedig.

Unwaith eto gwelir mai salwch seicolegol ac achosion cyhyrsgerberydol (poenau cefn, cymalau a thorri esgyrn) sy'n gyfrifol am y ganran fwyaf o absenoldebau yn ystod 2019/20.

Dyma ddosbarthiad y dyddiau a gollwyd ar gyfer y prif gategoriâu achosion absenoldeb:



Mae achosion absenoldebau hir dymor (niferoedd / digwyddiadau) fel a ganlyn:



COLEGAU A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae'r tabl canlynol yn nodi 'Dyddiau Cyfartalog' absenoldeb salwch fesul CALL pob Coleg a Gwasanaeth Proffesiynol, o'i gymharu â chyfartaledd y brifysgol.

Coleg/Gwasanaeth Proffesiynol	CYFRADD	CYFRADD ac eithrio tymor hir
Y Brifysgol	3.96	1.71
Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes	4.08	0.70
Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianeg	1.43	0.64
Gwyddorau Dynol	3.61	1.24
Canolfan Bedwyr	2.91	1.59
Gwasanaethau Masnachol	4.86	1.9
Gwasanaethau Corfforaethol	3.79	2.41
Gwasanaethau Cyllid ac Ymchwil	5.21	2.59
Gwasanaethau TG	4.05	2.24
Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin	1.59	1.47
Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau	5.79	2.61
Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu	3.59	2.34
Celfyddydau Pontio	3.68	1.86
Gwasanaethau Eiddo a Champws	8.81	3.70
Gwasanaethau Myfyrwyr	6.05	4.18
Undeb y Myfyrwyr	3.93	1.67

Sylwer: Dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r brif gyfradd Dyddiau/CALL yn achos adrannau llai o faint oherwydd gall absenoldebau hirdymor ychydig iawn o staff effeithio ar yr

ystadegau. Er mwyn ein helpu i ddeall, mae ail golofn wedi'i hychwanegu sy'n hepgor absenoldebau hirdymor.

CADW GOLWG AR IECHYD


Cafodd oddeutu 125 aelod o'r staff arolygon ieched i gadarnhau nad oedd eu gwaith yn niweidio eu hiechyd yn 2019/20.

Rhoddir arolwg, o wahanol fathau, i staff os ydynt yn defnyddio offer sy'n dirgrynu ac sy'n agored i lefelau sŵn uchel iawn yn rheolaidd, ac i rai gwyddonwyr ymchwil, cemegwyr a staff technegol, gweithwyr sydd ar shifftiau, gyrwyr sydd ar gontractau ac arbenigwyr trin anifeiliaid.

Ni nodwyd unrhyw ganlyniadau a oedd yn cael effaith niweidiol ar ieched yn 2019/20.

Darperir Arolygon Ieched yn bennaf i gadarnhau nad yw rhai risgiau yn y gwaith yn cael effaith andwyol ar ieched staff. Mae budd ychwanegol i aelodau staff hefyd oherwydd gall yr arolygon dynnu sylw at faterion ieched mwy cyffredinol nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig â'u gwaith, fel pwysedd gwaed uchel, a chyfeiriwyd nifer o staff at eu meddygon teulu eu hunain o ganlyniad i gadw golwg fel hyn ar eu hieched.


8. LARYMAU TÂN YN CANU



Mae ystâd y Brifysgol yn cynnwys mwy na chant o adeiladau gyda'r mwyafrif wedi'u gwarchod gan systemau canfod tân a larwm awtomatig gyda thua 9,000 o synwryddion mwg/gwres wedi'u gosod.

Yn ystod 2019/20 cafwyd **73** o achosion o larymau tân yn seinio yn adeiladau'r Brifysgol, gostyngiad o **24%** ar y 96 yn 2018/19.


Larymau Tân yn Canu 2010 – 19/20



Galwyd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r brifysgol **18** o weithiau, gostyngiad ar yr 22 yn 18/19. Roedd **17** o'r galwadau hyn (**21 yn 19/20**) yn rhai i neuaddau preswyl rhwng 8yn a 8yb.

Gellir rhannu'r cyfanswm hwn (73) i ddynodi'r nifer o weithiau y canodd y larymau yn yr adeiladau preswyl a'r adeiladau academaidd/gweinyddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o ystâd y brifysgol.

Larymau Tân yn canu fesul ystâd



— Neuaddau Preswyl
— Academaidd a Gweinyddol


Bu gostyngiad yn y nifer o weithiau y seinwyd y larwm tân mewn adeiladau Academaidd a Gweinyddol i **32** yn 2019/20 o 44 (18/19). Bu gostyngiad unwaith yn rhagor yn nifer yr achosion o ganu larymau tân yn y neuaddau preswyl i **41** o 52 (18/19), 59 (17/18) a 65 (16/17).

Cyfradd achosion seinio larymau tân
/1000 o ganfodyddion

Ystâd	19/20	Tuedd
Neuaddau Preswyl ¹⁰	9.5/1000	I lawr*
Academaidd a Gweinyddol ¹¹	7/1000	I lawr*

*Bydd Covid-19 a'r cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr achosion

Larymau tân yn canu fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely¹²



	10/11	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17	17/18	18/19	19/20
PB	35	32	30	35	33	25	22	20	17.6	13.9
Sector	95	96	Dim data ar gael					72		

• **TANAU**

Roedd un tân, ac er nad oedd mewn adeilad ar dir y Brifysgol, roedd o ganlyniad i weithred faleisus gydag eitemau o ddillad a dillad gwely wedi'u rhoi ar dân.

Roedd un tân 'bron â digwydd', a ddiffiniwyd fel digwyddiad yn ymwneud â mwg yn unig, heb fflamau o ganlyniad i ddigwyddiad coginio yn y Neuaddau.

9. HAWLIADAU SIFIL (SY'N YMWNEUD AG IECHYD A DIOGELWCH)

Yn 2019/20 roedd **un** Hawliad Atebolrwydd Cyflogwr gan gyn aelod staff a **phedwar** hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus am lithro ar lawr gwlyb (Pontio), hawliad project Ymchwil a difrod i gerbydau (x2) o system bolard awtomatig oedd ddim yn gweithio'n iawn yn M-Sparc.

Yn 2018/19 cafwyd dau Hawliad Atebolrwydd Cyflogwr yn dilyn anafiadau a gofnodwyd yn y gwaith ac un Hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus.

10. YSTADEGAU'R WEFAN

Yn 2019/20 edrychwyd ar **24,805 (-1.5%)** o dudalennau unigol ar wefan Iechyd a Diogelwch, ac edrychwyd ar **35,373** o dudalennau i gyd **(+8%)**. O'r rhain, y pedwar tudalen fwyaf poblogaidd yr ymwelwyd â hwy oedd:

- Asesiadau Risg.
- Teithio Dramor.
- Cyswllt A-Z.
- Cyfrifianellau Laser.

Diwedd.

¹⁰ Yn seiliedig ar 4335 o synwryddion mewn neuaddau

¹¹ Yn seiliedig ar 4630 o synwryddion mewn adeiladau academaidd

¹² Yn seiliedig ar 2960 o ystafelloedd gwely. Nid oedd unrhyw ddata'r Sector ar gael rhwng 2012 – 2016 ac nid yw data 18/19 ar gael eto